Cyflwyno Newid Hinsawdd: Ddoe, Heddiw, ac Yfory

Gweithgaredd 1.2: *Face the Music* – Wynebu'r mater

Oed: 11–16

Nod

Archwilio cysyniadau datblygu cynaliadwy a chyd-ddibyniaeth mewn cyd-destun hanesyddol a byd-eang.

Bydd angen

Mynediad at y dudalen ganlynol ar y Rhyngrwyd – http://www.oxfam.org.uk/education/resources/climate_change_poverty_women/ – a'r gallu i ddangos animeiddiad 'Face the Music' Oxfam i'r holl ddosbarth.

Gwyliwch animeiddiad 'Face the Music' gyda'r disgyblion. Os nad ydynt wedi ei weld o'r blaen, efallai yr hoffech ei wylio drwyddo unwaith neu ddwy, ac oedi yn rheolaidd ar yr ail ddangosiad i roi cyfle i'r disgyblion ddeall a phrosesu'r hyn y maent yn ei wylio, gan ei fod yn brysur iawn!

Gofynnwch i'r disgyblion drafod (neu nodi, wedyn trafod) eu hymatebion i'r cwestiynau canlynol:

- Sut mae'r animeiddiad yn gwneud i chi deimlo?
- Pa neges(euon) mae *Face the Music* yn ceisio trosglwyddo i wylwyr yn eich barn chi? Beth, o'r fideo, sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Sut mae cerddoriaeth yr animeiddiad yn cyfrannu at y neges? Sut mae'n effeithio ar eich teimladau wrth i chi ei wylio?
- Mae'r animeiddiad yn dangos dwy ran o'r byd ar yr un pryd. Pa gysylltiad sydd rhwng y ddwy ran o'r byd?
- Pa gwestiynau sy'n codi?

Yna gallech ofyn i'r disgyblion ddefnyddio'r diagram trywydd (gweler isod) i edrych ar y cwestiynau a godwyd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod disgyblion wedi edrych ar wahanol agweddau o'r mater. Yna gallech eu holi am atebion i'r cwestiynau a godwyd; pa gwestiynau y mae modd eu hateb a pha rai sydd angen mwy o wybodaeth. Gall y gweithgaredd hwn lansio ymchwiliad, a'r cam cyntaf fyddai blaenoriaethu'r cwestiynau ar gyfer ymchwil pellach.

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Taflen waith Gweithgaredd 1.2: Trywydd

Does it have anything to do with **nature** or the environment?
Does it affect all of the world's environments in the same way?
Why?

Who decides what happens to the issue?
Who has most power?
How much power do you have to improve things?
What could you do?



Does it have anything to do with **economics** or money?
How?
Does it affect poorer and richer people in the same way?
Why?

Does it have anything to do with **societies** or people?
How?
Does it involve you, people in your local area, people in other countries?
Are there any similarities or differences?

Ffynhonnell: Get Global! (ActionAid 2003)

Y Mater

N = Gogledd
W = Gorllewin
E = Dwyrain
S = De

A yw'n ymwneud â **natur** neu'r amgylchedd?
A yw'n effeithio ar bob amgylchedd yn y byd yn yr un ffordd?
Pam?

Pwy sy'n penderfynu beth sy'n digwydd i'r mater?
Pwy sydd â'r grym mwyaf?
Faint o rym sydd gennych chi i wella pethau?
Beth ellid ei wneud?

A yw'n ymwneud ag **economeg** neu arian?
Sut?
A yw'n effeithio ar bobl gyfoethog a thlawd yn yr un ffordd?
Pam?

A yw'n ymwneud â **chymdeithas** neu bobl?
Sut?
A yw'n eich cynnwys chi, pobl yn eich ardal leol, pobl mewn gwledydd eraill?
A oes tebygrwydd neu wahaniaethau?